Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 46

## Gorchymyn Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau'r Senedd) 2025 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Chwefror 2026* |

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 46

## The Non-Party Campaigner Campaign Expenditure (Senedd Elections) Code of Practice 2025 (Appointed Day) (Wales) Order 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *12 February 2026* |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 46

# Y COMISIWN ETHOLIADOL

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

# SENEDD CYMRU

# Gorchymyn Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau'r Senedd) 2025 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu 18 Chwefror 2026 fel y diwrnod y daw Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau'r Senedd) 2025 ("Cod Ymarfer") i rym.

Lluniodd y Comisiwn Etholiadol y Cod Ymarfer drafft, ymgynghori arno ac, yn unol ag adran 100C(2)(b) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p. 41) ("Deddf 2000"), fe'i cyflwynodd i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo. Mae Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo'r Cod Ymarfer drafft heb addasiadau, a gosodwyd y Cod Ymarfer drafft gerbron Senedd Cymru ar 15 Rhagfyr 2025.

Ni wnaeth Senedd Cymru benderfyniad i beidio â chymeradwyo'r Cod Ymarfer ac o ganlyniad, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn i bennu'r diwrnod i'r Cod Ymarfer ddod i rym.

Dyroddwyd y Cod Ymarfer gan Weinidogion Cymru o dan adran 100C(8)(a) o Ddeddf 2000 a bydd y Cod Ymarfer yn cael ei gyhoeddi gan y Comisiwn Etholiadol o dan adran 100C(8)(c) o Ddeddf 2000.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 46

## Y COMISIWN ETHOLIADOL

## CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## SENEDD CYMRU

# Gorchymyn Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau'r Senedd) 2025 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026

*Gwnaed* *12 Chwefror 2026*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 100C(8)(b) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000(**1**) ("Deddf 2000"), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Lluniodd y Comisiwn Etholiadol ddrafft o God Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau'r Senedd) 2025 ("Cod Ymarfer") yn unol ag adran 100A(1A) o Ddeddf 2000 ac ymgynghorodd â Senedd Cymru ac unrhyw bersonau eraill yr oedd y Comisiwn Etholiadol yn ystyried eu bod yn briodol, yn unol ag adran 100C(1) o Ddeddf 2000.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, addasodd y Comisiwn Etholiadol y Cod Ymarfer drafft a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo yn unol ag adran 100C(2)(b) o Ddeddf 2000.

Cymeradwyodd Gweinidogion Cymru y Cod Ymarfer drafft heb addasiadau yn unol ag adran 100C(3) o Ddeddf 2000, a gosodwyd y Cod Ymarfer drafft gerbron Senedd Cymru ar 15 Rhagfyr 2025, yn unol ag adran 100C(4) a (5) o Ddeddf 2000.

Ni wnaed penderfyniad o'r math a grybwyllir yn adran 100C(6) o Ddeddf 2000 gan Senedd Cymru o fewn 40 niwrnod i'r Cod Ymarfer drafft gael ei osod.

Dyroddwyd y Cod Ymarfer, ar ffurf y drafft a osodwyd gerbron y Senedd, gan Weinidogion Cymru o dan adran 100C(8)(a) o Ddeddf 2000 a bydd y Cod Ymarfer yn cael ei gyhoeddi gan y Comisiwn Etholiadol o dan adran 100C(8)(c) o Ddeddf 2000.

(**1**) 2000 p. 41.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau'r Senedd) 2025 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Cod Ymarfer" yw Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau'r Senedd) 2025, y gosodwyd drafft ohono gerbron y Senedd ar 15 Rhagfyr 2025.

**Y diwrnod penodedig**

**2.** Y diwrnod penodedig i'r Cod Ymarfer ddod i rym yw 18 Chwefror 2026.

*Jayne Bryant*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
12 Chwefror 2026

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 46

# ELECTORAL COMMISSION

# REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

# SENEDD CYMRU

## The Non-Party Campaigner Campaign Expenditure (Senedd Elections) Code of Practice 2025 (Appointed Day) (Wales) Order 2026

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order appoints 18 February 2026 as the day on which the Non-Party Campaigner Campaign Expenditure (Senedd Elections) Code of Practice 2025 (“Code of Practice”) comes into force.

The Electoral Commission prepared and consulted on the draft Code of Practice and, in accordance with section 100C(2)(b) of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 (c. 41) (“2000 Act”), submitted it to the Welsh Ministers for approval. The Welsh Ministers have approved the draft Code of Practice without modifications, and the draft Code of Practice was laid before Senedd Cymru on 15 December 2025.

No resolution to not approve the Code of Practice was made by Senedd Cymru and as a result, the Welsh Ministers make this Order to appoint the day for the Code of Practice to come into force.

The Code of Practice was issued by the Welsh Ministers under section 100C(8)(a) of the 2000 Act and the Code of Practice will be published by the Electoral Commission under section 100C(8)(c) of the 2000 Act.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 46

## ELECTORAL COMMISSION

## REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

## SENEDD CYMRU

# The Non-Party Campaigner Campaign Expenditure (Senedd Elections) Code of Practice 2025 (Appointed Day) (Wales) Order 2026

*Made* *12 February 2026*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 100C(8)(b) of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000(**1**) ("the 2000 Act") make the following Order.

The Electoral Commission prepared a draft of the Non-Party Campaigner Campaign Expenditure (Senedd Elections) Code of Practice 2025 ("Code of Practice") in accordance with section 100A(1A) of the 2000 Act and consulted with Senedd Cymru and such other persons as the Electoral Commission considered appropriate, in accordance with section 100C(1) of the 2000 Act.

Following the consultation, the Electoral Commission modified the draft Code of Practice and submitted it to the Welsh Ministers for approval in accordance with section 100C(2)(b) of the 2000 Act.

The Welsh Ministers approved the draft Code of Practice without modifications in accordance with section 100C(3) of the 2000 Act, and the draft Code of Practice was laid before Senedd Cymru on 15 December 2025, in accordance with section 100C(4) and (5) of the 2000 Act.

No resolution of the kind mentioned in section 100C(6) of the 2000 Act was made by Senedd Cymru within 40 days of the draft Code of Practice being laid.

(**1**) 2000 c. 41.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

The Code of Practice was issued, in the form of the draft laid before the Senedd, by the Welsh Ministers under section 100C(8)(a) of the 2000 Act and the Code of Practice will be published by the Electoral Commission under section 100C(8)(c) of the 2000 Act.

### Title and interpretation

**1.**—(1) The title of this Order is the Non-Party Campaigner Campaign Expenditure (Senedd Elections) Code of Practice 2025 (Appointed Day) (Wales) Order 2026.

(2) In this Order, "the Code of Practice" means the Non-Party Campaigner Campaign Expenditure (Senedd Elections) Code of Practice 2025, a draft of which was laid before the Senedd on 15 December 2025.

### Appointed day

**2.** The day appointed for the coming into force of the Code of Practice is 18 February 2026.

*Jayne Bryant*
Cabinet Secretary for Housing and Local Government, one of the Welsh Ministers
12 February 2026